# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (207)

# Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mercher, 7 Mehefin 2006

# Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma**

**Eitem 1 - Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 10 yn ôl.

**.......................................**

**2.35pm**

**Eitem 2 - Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau**

Gofynnwyd y 6 cwestiwn cyntaf.

**.......................................**

**3.11pm**

**Eitem 3 - Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28, ac fel sydd wedi'i nodi yn y rhestr o gyfrifoldebau'r Gweinidogion**

Gofynnwyd pob cwestiwn ac eithrio cwestiwn 4 a dynnwyd yn ôl a chwestiwn 9 a drosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.  Cafodd cwestiynau 1 a 7 eu grwpio.

....................................

**3.35pm**

## Eitem 4 - Cyflwynodd y Trefnydd gynnig trefniadol i ohirio Rheolau Sefydlog er mwyn cyflwyno'r cynnig o dan eitem 5

**NDM3076 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheolau Sefydlog 37.5 a 37.6:

1. Yn gohirio Rheol Sefydlog 6.13, a'r rhan honno o Reol Sefydlog 5.4 sy'n ei gwneud yn ofynnol mai'r Datganiad Busnes wythnosol yw'r amserlen gytûn ar gyfer busnes y Cynulliad, i ganiatáu i NNDM3075 a gyflwynwyd ar 6 Mehefin 2006 – sy'n ymwneud â'r Comisiwn Cysgodol – gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 7 Mehefin 2006; a

2. Yn gohirio Rheol Sefydlog 6.14 i ganiatáu i unrhyw welliannau mewn perthynas ag NNDM3075, a gyflwynwyd cyn 11:00am ddydd Mercher 7 Mehefin, gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 7 Mehefin 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol:**
O blaid 32; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 32
**Derbyniwyd y cynnig trefniadol**

....................................

**3.36pm**

## Eitem 5 - Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog mewn perthynas â'r Comisiwn Cysgodol

**NNDM3075 Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu'n unol ag adran 46(6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 37:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a e-bostiwyd at Aelodau ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mehefin; a

2. Yn cymeradwyo'r gwelliannau i'r Rheolau Sefydlog a amlinellir yn adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 40
**Derbyniwyd y cynnig**

**.......................................**

## 3.36pm
## Eitem 6 – Cynnig i gyflwyno Rheol Sefydlog newydd ar gyfer y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog

**NNDM3074 Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu'n unol ag adran 46(6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 37:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a e-bostiwyd at Aelodau ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Mai; a

2. Yn cymeradwyo'r gwelliannau i'r Rheolau Sefydlog a amlinellir yn adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 38; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 38
**Derbyniwyd y cynnig**

**.......................................**

## 3.37pm
## Eitem 7 - Dadl ar Ein Cadw'n Ddiogel – Adroddiad yr Adolygiad o Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed

**NDM3071 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu Ein Cadw'n Ddiogel, Adroddiad yr Adolygiad o Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed; a

2. Yn edrych ymlaen at ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adroddiad a gyhoeddir yn yr hydref eleni.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn pwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried yr angen am gydweithio rhwng asiantaethau er mwyn i wasanaethau plant allu cael eu darparu mewn ffordd gyfartal, gynaliadwy, gyson a chynlluniedig.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:**
O Blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44
**Derbyniwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn pwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gwrdd ag anghenion plant sy'n mynd drwy'r system cyfiawnder troseddol ieuenctid a'r rhai sydd mewn cyfleusterau arbenigol ymhell oddi wrth eu teuluoedd.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:**
O Blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43
**Derbyniwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn pwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau gwir annibyniaeth mewn gwasanaethau eiriolaeth, fel bo pryderon ynghylch plant yn cael eu clywed.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:**
O Blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44
**Derbyniwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn pwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gwrdd â'r angen am raglenni gwybodaeth sy'n addysgu plant a phobl ifanc ynghylch defnyddio technoleg mewn ffordd ddiogel.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:**
O Blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44
**Derbyniwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn pwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cael digon o adnoddau i gyflawni'u cyfrifoldebau o ran plant sy'n derbyn gofal.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:**
O Blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44
**Derbyniwyd gwelliant 5**

**Y cynnig wedi'i ddiwygio**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu Ein Cadw'n Ddiogel, Adroddiad yr Adolygiad o Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed; a

2. Yn edrych ymlaen at ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adroddiad a gyhoeddir yn yr hydref eleni.

3**.** Yn pwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried yr angen am gydweithio rhwng asiantaethau er mwyn i wasanaethau plant allu cael eu darparu mewn ffordd gyfartal, gynaliadwy, gyson a chynlluniedig

4. Yn pwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gwrdd ag anghenion plant sy'n mynd drwy'r system cyfiawnder troseddol ieuenctid a'r rhai sydd mewn cyfleusterau arbenigol ymhell oddi wrth eu teuluoedd

5. Yn pwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau gwir annibyniaeth mewn gwasanaethau eiriolaeth, fel bo pryderon ynghylch plant yn cael eu clywed.

6. Yn pwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gwrdd â'r angen am raglenni gwybodaeth sy'n addysgu plant a phobl ifanc ynghylch defnyddio technoleg mewn ffordd ddiogel.

7**.** Yn pwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cael digon o adnoddau i gyflawni'u cyfrifoldebau o ran plant sy'n derbyn gofal.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**
O Blaid 44; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 44

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio**

.......................................

**4.10pm**

**Pwynt o drefn** - Cododd Rhodri Glyn Thomas bwynt o drefn ynghylch y ddadl o dan eitem 8 gan nodi na fu ymgynghori gyda'r Pwyllgor priodol yn unol â Rheol Sefydlog 31.5.

**4.13pm**

**Eitem 8 - Ail ddadl ar gynnig o dan Reol Sefydlog 31 gan Huw Lewis AC**

**NDM3072 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 31:

1. Yn croesawu'r argymhelliad yn y cynnig a gyflwynwyd gan Huw Lewis [NDM2837] a drafodwyd ac a ddiwygiwyd yn y cyfarfod llawn ar 15 Mawrth 2006:

2. Yn nodi'r dull a argymhellwyd yn yr adroddiad dichonoldeb a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 31 Mai 2006, a'r bwriad i ddatblygu is-ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol i'w roi ar waith.

3. Yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bwrw ymlaen â'r argymhelliad.

**Cynhaliwyd pleidlais y cynnig:**
O Blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Derbyniwyd y cynnig**

.......................................

**4.56pm**

**Eitem 9 - Dadl fer** - NDM3073 Sandy Mewies (Delyn): "Ei Gael Mewn Pryd" – Gwella Gofal ar gyfer Pobl â Chlefyd Parkinson

# Daeth y cyfarfod i ben am 5.23pm

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 13 Mehefin 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**